Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ddydd Bright Start
# Coleg Sir Benfro
# Hwlffordd
# SA61 1SZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**©Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/01/2018**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Ddydd Bright Start wedi'i lleoli yng Ngholeg Sir Benfro yn Hwlffordd, yn awdurdod lleol sir Benfro, ac mae'n gwasanaethu staff a dysgwyr yn ogystal â'r cyhoedd. Mae wedi cofrestru i dderbyn hyd at 19 o blant, o enedigaeth hyd at saith mlwydd oed. Mae'r lleoliad ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.00 a.m. a 6.00 p.m., am 39 wythnos y flwyddyn ac am ddiwrnod yr wythnos yn ystod y gwyliau, yn amodol ar y galw.

Nododd y lleoliad nad oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu ar hyn o bryd a bach iawn ohonynt sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar. Saesneg yw iaith y cartref i bron pob un o'r plant.

Mae saith aelod staff amser llawn a phedwar aelod staff rhan-amser yn y lleoliad, y mae dau o'r rhain yn gweithio'n agos gyda'r plant tair oed. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers i'r lleoliad agor ym 1990. Mae gan bob un ohonynt gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc.

Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) arolygu'r feithrinfa ddiwethaf ym Mawrth 2017 a chafodd ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym Mawrth 2012.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae'r ymarferwyr yn trin yr holl blant yn deg a chyda pharch
- Mae'r perthnasoedd rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn y lleoliad yn gadarn
- Mae'r amgylchedd dysgu yn ddigynnwrf ac yn bwrpasol ac mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn llwyddiannus
- Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau addysgu ac yn gwybod pryd i ymyrryd yn nysgu'r plant i'w helpu i wneud cynnydd
- Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ennyn diddordeb yr holl blant yn llwyddiannus a chynnal eu diddordeb mewn amrywiaeth fuddiol o weithgareddau dysgu
- Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant
- Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau trylwyr ac mae'r rhain yn eu helpu i amlygu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn llwyddiannus

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r tîm rheoli'n cynnig gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, maent yn cydweithio'n effeithiol ac mae ganddynt nodau ac amcanion clir
- Mae systemau cryf yno i nodi cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w gwella, wedi'u cysylltu'n briodol â deilliannau plant
- Mae'r holl ymarferwyr yn arddangos ymrwymiad cadarn i wella'n barhaus
- Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cydweithio'n llwyddiannus i wella'u harfer
- Mae ymarferwyr yn elwa o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- Mae gan y lleoliad amrywiaeth helaeth o bartneriaethau effeithiol, sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn effeithio'n gadarnhaol ar eu profiadau, gan gynnwys partneriaeth hynod effeithiol â chymuned y coleg
- Mae partneriaeth gref ag ysgolion lleol, sy'n cefnogi plant yn dda wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd ymarferwyr o’r Gymraeg drwy gydol y sesiwn

A2 Gwella defnydd ymarferwyr o gwestiynau er mwyn datblygu medrau meddwl plant yn effeithiol

A3 Gwella cynllunio a’r ddarpariaeth er mwyn caniatáu i blant ddatblygu’u medrau’n effeithiol ac yn annibynnol yn yr awyr agored

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

‘Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.’

‘Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio’r arfer ragorol a amlygwyd yn ystod yr arolygiad.’

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, y Gymraeg na lles, gan nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Barn**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, y Gymraeg na lles, gan nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ac ymweliadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb plant yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae cynlluniau'r lleoliad yn cwmpasu holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen yn effeithiol ac mae'n canolbwyntio'n dda ar fodloni anghenion unigol y plant. Mae eu cynlluniau'n hyblyg ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu'u medrau siarad a gwrando. Yn ystod yr amser cylch dyddiol, mae ymarferwyr yn annog plant i ymuno â chanu caneuon fel rhan o'r gweithgaredd 'taro'r bocs' ac ailadrodd ymadroddion syml mewn storïau cyfarwydd. Mae cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu'u medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r rhain yn cynnwys ysgrifennu'u dewisiadau ar fwrdd sialc yng nghornel y cartref a defnyddio darnau pren i wneud marciau mewn gwair ac ewyn tu allan. Mae cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu'u medrau darllen cynnar. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn rhoi trefn ar y digwyddiadau mewn stori sy'n cael ei darllen iddynt ac mae amrywiaeth o lyfrau deniadol ar gael iddynt yn y gornel llyfrau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i gefnogi medrau rhifedd plant trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. Mae cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu'u medrau cyfrif a dysgu didoli a pharu trwy weithgareddau dyddiol. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i annog plant i ddatblygu'u medrau TGCh gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau yn rheolaidd, gan gynnwys teganau rhaglenadwy a gliniadur.

Mae cyfleoedd addas i blant ddechrau datblygu'u medrau Cymraeg, er enghraifft pan fyddant yn siarad am y tywydd ac yn dysgu cyfrif ac enwi lliwiau. Fodd bynnag,

megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i blant glywed y Gymraeg ar lafar trwy gydol y sesiwn. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r gymuned leol yn fuddiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Caiff plant gyfleoedd diddorol i ddysgu am y byd o'u cwmpas wrth fynd am dro i barciau lleol ac ymweld â'r uned anifeiliaid yn y coleg. Mae cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu'u medrau cymdeithasol yn ystod dathliadau a digwyddiadau codi arian.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth sicr am gwricwlwm y cyfnod sylfaen a defnyddiant broffil asesu'r cyfnod sylfaen yn dda. Rhoddant brofiadau dysgu effeithiol i'r plant, sy'n datblygu'u medrau yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau addysgu ac yn gwybod pryd i ymyrryd yn nysgu'r plant. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ennyn a chynnal diddordeb plant mewn amrywiaeth fuddiol o weithgareddau dysgu. Mae'r lleoliad yn cynnig cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr ymarferwyr. Mae cyfleoedd buddiol i blant ddewis gweithgareddau ac adalw'u dysgu blaenorol trwy dasgau â ffocws sydd dan arweiniad oedolion. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd heriol i blant ddefnyddio'u medrau meddwl a datrys problemau. Mae perthnasoedd gwaith cadarn rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf, pwrpasol ac yn rheoli ymddygiad plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn asesu pa mor dda mae plant yn datblygu'u medrau yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol, sy'n bodloni anghenion a diddordebau plant. Maent yn cofnodi arsylwadau manwl yn llyfrau cofnod unigol plant i ddangos sut maent yn dod yn eu blaenau. Mae asesiadau trylwyr yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn nysg plant unigol yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni am gyflawniadau eu plant yn ystod yr amser trosglwyddo ar ddiwedd y sesiwn. Cynhelir trafodaethau manwl adeg nosweithiau rhieni i sicrhau bod rhieni'n gwybod sut gallant helpu eu plant i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod iechyd a lles plant yn cael blaenoriaeth uchel mewn cymuned ofalgar. Mae polisïau a gweithdrefnau trylwyr i hybu'r agwedd hon ar waith y lleoliad ac mae ymarferwyr yn gweithredu ar sail y rhain yn briodol. Mae bwrdd gwybodaeth cynhwysfawr wrth fynedfa'r lleoliad yn rhoi gwybod i rieni am ffyrdd iach o fyw ynghyd ag amrywiaeth ddefnyddiol o wybodaeth gefnogol. Mae gweithgareddau fel brwsio dannedd, golchi dwylo, ymarfer corff rheolaidd a bwyta'n iach yn cael eu hintegreiddio i drefniadau dyddiol y lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg trylwyr ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn ddiogel.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn effeithiol. Mae sesiwn adrodd stori yn rhyngweithiol, wedi'i

harwain gan fyfyrwyr y coleg, yn creu ymdeimlad o ryfeddod a chyffro. Mae ymarferwyr yn annog plant i feddwl am eraill sy'n llai ffodus na nhw trwy godi arian i amrywiaeth o elusennau cenedlaethol a lleol. Mae ymarferwyr yn hybu ymddygiad da yn dda trwy arferion cryf a'u menter 'Rheolau Aur', sy'n annog plant i fod â dwylo caredig a defnyddio geiriau caredig. Mae hyn yn helpu plant i ddeall pwysigrwydd ymddygiad derbyniol yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau trylwyr i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cysylltiadau cadarn â gwasanaethau arbenigol er mwyn i ymarferwyr gael at gyngor a chymorth os bydd eu hangen, gan gynnwys y ddarpariaeth asesu arbenigol leol. Mae ymarferwyr yn defnyddio cofnod cyfathrebu manwl yn effeithiol i sicrhau bod asiantaethau, rhieni a'r lleoliad yn gwybod pa mor dda y mae plant yn dod yn eu blaenau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac yn nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae'r ymarferwyr yn trin yr holl blant yn deg a chyda pharch. Mae ymarferwyr yn rhoi croeso cynnes i rieni a phlant i gyntedd deniadol ac addysgiadol. O ganlyniad, mae plant yn siarad yn rhwydd ag ymarferwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a theimlant yn hyderus bod eu barn o bwys. Mae pawb yn gallu manteisio'n gyfartal ar bob rhan o'r ddarpariaeth ac mae ymarferwyr yn addasu eu cynllunio i fodloni anghenion yr holl blant yn briodol.

Mae'r adeilad a'r safle yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae ardaloedd dysgu effeithiol dan do gyda chyflenwad da o adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu'u medrau dysgu annibynnol. Er enghraifft, mae'r ardal gwneud marciau'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu'u medrau'n annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer fel ffyn glud, pinnau cotwm, sialciau a brigau. Mae arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol yn cefnogi dysgu'r plant yn dda ac mae ffotograffau'n dathlu'r gweithgareddau a'r profiadau gwerthfawr a rannant. Fodd bynnag, nid yw'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n ddigon da i roi cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu'u medrau'n annibynnol. Mae ymweliadau cynlluniedig â'r ardal leol a'r coleg yn datblygu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn dysgu am ymlusgiaid gwahanol a'u cynefin pan fyddant yn ymweld â'r uned anifeiliaid yn y coleg.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn amlinellu nodau ac amcanion cadarn i'r lleoliad. Maent wedi sefydlu gweledigaeth glir, y maent yn ei rhannu'n llwyddiannus gydag ymarferwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gosod disgwyliadau uchel iddynt eu

hunain ac eraill. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod y lleoliad yn gynhwysol ac yn ofalgar ac yn darparu'n briodol ar gyfer diddordebau plant unigol. Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae prosesau cadarn ar waith i reoli perfformiad staff ac mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar wella deiliannau i blant. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar ar sut i ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen; mae hyn yn eu cynorthwyo i helpu plant i ddatblygu'u medrau'n gynyddol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n dda ar welliannau i safonau addysgu a dysgu, ac yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ymarferwyr rannu arfer dda â'i gilydd. Mae'r arweinydd yn hysbysu rheolwyr y coleg yn dda am waith y lleoliad. Mae'r lleoliad yn cyfrif am flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Er enghraifft, mae'n canolbwyntio'n briodol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd plant, ac ar helpu plant i ddysgu am ffyrdd iach o fyw.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r tîm rheoli wedi gwella prosesau'r lleoliad ar gyfer arfarnu ei waith yn llwyddiannus. Mae'n casglu tystiolaeth yn ofalus i ddangos cynnydd, yn nodi blaenoriaethau ac yn gosod amserlenni clir ar gyfer camau gweithredu ac adolygu datblygiadau. Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol yn unol â'r camau gweithredu ac mae hyn yn galluogi'r lleoliad i symud ymlaen yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i wella'n barhaus ac maent yn ymdrechu'n gyson i wneud profiadau dysgu'n gyffrous ac yn symbylol i blant. Mae'r lleoliad yn ystyried ymatebion rhieni i holiadur blynyddol yn ofalus i nodi meysydd i'w gwella. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu gwell â rhieni trwy rannu negeseuon yn electronig a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddangos ffotograffau o weithgareddau dyddiol plant. Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i gyngor gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at welliannau rheolaidd, gan gynnwys datblygiadau effeithiol i broses hunanarfarnu'r lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth helaeth o bartneriaethau hynod effeithiol, sy'n cefnogi dysgu'r plant yn eithriadol o dda. Mae partneriaethau â rhieni yn arbennig o gadarn. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth â rhieni yn dda iawn trwy arddangosfeydd llawn gwybodaeth ar hysbysfwrdd y lleoliad, cylchlythyron rheolaidd ac ar dudalen y lleoliad ar y cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, mae rhieni'n wybodus iawn am ddarpariaeth y lleoliad. Mae gardd synhwyraidd a ddatblygwyd gyda chyfranogiad rhieni yn ymestyn dealltwriaeth plant o sut mae planhigion yn tyfu a sut i ofalu am eu hamgylchedd yn hynod effeithiol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu partneriaethau cryf ag ysgolion lleol sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn dda wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Er enghraifft, trwy weithio gydag ysgolion, mae ymarferwyr yn creu llyfrynnau addysgiadol y maent yn eu rhannu gyda'r plant, sy'n cynnwys lluniau o athro a chynorthwyydd y dosbarth meithrin, yr ystafell gotiau, yr ardal chwarae, amser cylch a'r toiledau. Mae'r rhain yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'r ysgol cyn iddynt gyrraedd. Mae cysylltiadau cryf

iawn â'r gweithwyr iechyd proffesiynol y mae'r lleoliad yn eu defnyddio'n dda i gefnogi anghenion plant unigol.

Mae partneriaeth effeithiol iawn â Choleg Sir Benfro. Mae ymarferwyr yn mynd â phlant i ymweld ag adran hyfforddi'r blynyddoedd cynnar yn rheolaidd, lle y mae myfyrwyr yn cynnig profiadau dysgu hynod greadigol. Er enghraifft, mae plant yn elwa o sesiwn fywiog a dychmygus gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau i'w helpu i archwilio sut beth fyddai mynd i hela eirth. Mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n cynnwys didoli, paru a chyfrif eirth, gwneud mygydau a dilyn stori ryngweithiol. Mae'r bartneriaeth ragorol hon yn helpu i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn eithriadol o dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i blant gymryd rhan mewn dathliadau gwahanol yn y coleg, sy'n datblygu'u hymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cymuned yn hynod effeithiol.

Mae partneriaeth gynhyrchiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae ymarferwyr yn croesawu ei chyngor a'i chymorth ac mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol, er enghraifft yn ansawdd yr amgylchedd dysgu.

Mae'r lleoliad yn gwneud y mwyaf o bartneriaethau gwerthfawr â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae mynd am dro yn rheolaidd yn y goedwig leol yn helpu plant i ddysgu am y tymhorau a chylch bywyd blodau a chreaduriaid byw. Mae ymweliadau i helpu glanhau'r traeth yn datblygu dealltwriaeth plant o faterion amgylcheddol yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli adnoddau'r lleoliad yn effeithiol gydag arweiniad clir gan gynrychiolydd rheolwyr y coleg. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod digon o ymarferwyr profiadol, sydd wedi cymhwyso'n briodol, i fodloni anghenion y plant. Mae hi'n eu dosbarthu'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Mae ymarferwyr yn elwa o werthusiadau blynyddol a goruchwyliaeth reolaidd. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol addas. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi gwella'u prosesau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant yn dilyn hyfforddiant asesu diweddar y cyfnod sylfaen.

Mae gan y lleoliad brosesau cryf ar gyfer rheol ei gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau defnyddiol o sefyllfa ariannol y lleoliad, sy'n arwain at newidiadau priodol i ymateb i anghenion penodol. Er enghraifft, mae adolygiad diweddar wedi gwella cynaliadwyedd y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn unol â nodau a amlygwyd yng nghynllun gwella'r lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ar wariant yn canolbwyntio'n bwrpasol ar wella deilliannau i'r plant. Yng ngoleuni'r profiadau dysgu diddorol, yr arweinyddiaeth gref a'r partneriaethau rhagorol, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |